

Taith y Rhufeiniaid: hanes Rhufeinig chwedlonol de ddwyrain Cymru

De Ddwyrain Cymru yw prifddinas Rufeinig Cymru. Mae Caerllion yn bentref maestrefol ar lan Afon Wysg, ychydig i'r gogledd o ddinas Casnewydd. Dyma leoliad o bwysigrwydd archeolegol mawr — yn gartref i gaer Rufeinig a bryngaer o'r Oes Haearn, sy'n golygu bod ganddo gyfoeth o hanes Rhufeinig. Mae Caerllion yn gartref i atyniadau twristaidd gan gynnwys Caer a Baddonau Rhufeinig, sy'n cynnwys yr amffitheatr Rufeinig fwyaf cyflawn ym Mhrydain, darnau o waliau'r gaer a'r unig weddillion o farics llengfilwyr Rhufeinig sydd i'w gweld yn unrhyw le yn Ewrop. Mae Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru i'w gweld y tu mewn i weddillion y gaer ac mae'n cynnwys llawer o arteffactau o'r cyfnod Rhufeinig. Ychydig dros 20 munud i ffwrdd mae Tref Rufeinig Caerwent, paradwys i archeolegwyr.



Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion

Caerllion yw un o'r safleoedd Rhufeinig mwyaf amrywiol a rhyfeddol ym Mhrydain, gan gynnwys **Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion**, amffitheatr sydd wedi'i gwarchod yn dda a rhes o flochiau barics — yr unig enghreifftiau sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn Ewrop. Gydag ystafelloedd newid cynnes, dewis o faddonau oer neu boeth, ystafelloedd ymarfer dan do a phwll nofio awyr agored hyd yn oed, mae'r gweddillion sydd i'w gweld yn glir yng Nghaerllion yn awgrymu bod bywyd Rhufeinig ar adegau'n gyfforddus ac yn foethus. Gall ymwelwyr gamu'n ôl mewn amser a gweld hanes yn dod yn fyw drwy dechnoleg fodern, gan gynnwys gemau sgrin cyffwrdd animeiddiedig a sioe sain a goleuo i ddangos lluniau nofwyr 3D yn defnyddio'r baddonau, yn ogystal â phanelau gwybodaeth, tapiau sain a ffilmiau mud doniol.



Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru

Camwch yn ôl mewn amser yn **Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru** sydd oddi mewn i adfeilion caer Rufeinig ac sydd wedi bod yn atyniad prysur ers dros 150 o flynyddoedd. Mae'r Amgueddfa'n dangos casgliad pwysig yn rhyngwladol sydd wedi ein helpu ni i ddeall beth wnaeth y Rhufeiniaid yn rym mor gryf, a'r effaith a gawsant ar fywyd fel rydyn ni'n ei adnabod heddiw. Gall ymwelwyr fwynhau'r Ardd Rufeinig unigryw, rhaglen brysur o ddigwyddiadau ac ystod ysbrydoledig o arteffactau sy'n dod â'r oes Rufeinig yn fyw.



Tref Rufeinig Caerwent

Mae **Tref Rufeinig Caerwent** yn bentref a chymuned yn Sir Fynwy, tua phum milltir i'r gorllewin o Gas-gwent ac un filltir ar ddeg i'r dwyrain o Gasnewydd. Cafodd ei sefydlu'n wreiddiol gan y Rhufeiniaid fel tref farchnad Venta Silurum, aneddiad llwythol llwyth y Silwriaid Brythonaidd. Parhaodd yn amlwg drwy gydol oes y Rhufeiniaid a'r Oesoedd Canol Cynnar fel safle croesffordd rhwng sawl canolfan ddinesig bwysig. Mae'r pentref modern wedi'i adeiladu o amgylch yr adfeilion Rhufeinig sydd yno o hyd, gan gynnwys waliau trawiadol o'r bedwaredd ganrif sydd hyd at 17 troedfedd (5.2m) o uchder, tai wedi'u cloddio, fforwm-basilica a theml Rufeinig-Brydeinig. Mae ardal ysguboriau'r Porth Gorllewinol yn darparu maes parcio, mynedfa ar dir gwastad i doiled a phanelau gwybodaeth.

Ewch i cadw.wales.gov.uk i ddarganfod y straeon a'r bobl y tu ôl i'r 128 o safleoedd hanesyddol sydd gennym. Beth am 'Hoffi' Cadw ar Facebook a dilyn @Cadwwales ar Twitter neu lwytho'r ap sydd gennym i ffônau clyfar i lawr; i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Ewch i amgueddfacymru.ac.uk, cofiwch hoffi Amgueddfeydd Cymru ar Facebook a dilynwch @AmgueddfaCymru.



Mae'r siwrnai o Gaerdydd i Gaerllion yn 30 munud yn y car, ac o Gasnewydd i Gaerllion yn 15 munud. Mae'n cymryd 20 munud i yrru o Gaerllion i ddinas Rufeinig Caerwent a dim ond ryw awr i ffwrdd yw Caerfaddon.